

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 13 yn gynwysedig.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn Bresennol: David Elis-Williams, Iwan Hywel, Dafydd Rhys; trwy gyswllt fideo o Gaerdydd - John Graystone (yn y Gadair), Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Cathy Clark, Gareth Cork, Caroline Davies, Chris Franks, Daryl Leeworthy, Stephen Nicholls, a Tim Palazon (o gofnod 4 ymlaen). Roedd gan y cyfarfod gworwm drwy gydol yr amser.

Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Stephen Thomas (Clerc/Ysgrifennydd y Cwmni), Buddug Wiliam (sylwedydd: cynrychiolydd y 'JCNC' - hyd at gofnod 8 yn unig), Siôn Aled Owen (cyfieithydd ar y pryd); trwy gyswllt fideo o Gaerdydd - Iola Llwyd (cyfieithydd ar y pryd); Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau) a Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad) - y ddau ar gyfer cofnodion 1-5 a 12-13 yn unig.

Ymddiheuriadau: Julie Cook, Salamatu Fada, Jenni Jones-Annetts, Suzanne Samuel, Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Guy Wallace Smith.

2. Croeso a Materion Rhagarweiniol

Darllenwyd y canllawiau ynglŷn â fideo-gynadledda gan y Cadeirydd. Gwnaed cyflwyniadau, a rhoddwyd croeso arbennig i Buddug Wiliam fel sylwedydd staff y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi ('JCNC'), ac i Iola Llwyd yn ei rôl fel cyfieithydd pâr yn lleoliad swyddfa Caerdydd. Cyhoeddwyd casgliadau etholiadau diweddar i 4 sedd y Cyngor, bob un ohonynt â thymhorau o dair blynedd; ac roedd y Cadeirydd yn dymuno nodi gwerthfawrogiad a diolchgarwch y Cyngor am y cyfraniadau sylweddol a wnaed gan David Elis-Williams ac Iwan Hywel, gan mai hwn oedd eu cyfarfod olaf cyn rhoi'r gorau iddi fel aelodau'r Cyngor ar ddiwedd eu tymhorau ar 31 Mawrth.

3. Coronafeirws Covid-19 a'i oblygiadau

O ystyried pwysigrwydd sylfaenol y mater hwn a sut yr oedd wedi datblygu dros y diwrnodau blaenorol, rhoddwyd crynodeb i'r Cyngor o gyfathrebiadau'r Sefydliad ynglŷn ag ef, a'r polisiâu oedd wedi'u rhoi ar waith hyd yma. Gan fod pwyllgor COBRA Llywodraeth y DU yn cyfarfod ac y rhagwelwyd y byddai'n cyhoeddi symud i'r cam gweithredu 'oedi' yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, anogwyd y Cyngor i drafod ei safbwynt a'i gynlluniau wrth gefn ei hun ar gyfer y Sefydliad. Soniwyd am y penderfyniadau a wnaed gan brifysgolion amrywiol ar arholiadau ac ar ganslo cynadleddau; roedd disgwyl i gyrff dyfarnu ddangos hyblygrwydd yn eu hymagweddau, a hefyd Llywodraeth Cymru o ran cyllid craidd pe bai'n debygol y byddai tarfu niweidiol ar ran sylweddol o'r ddarpariaeth addysgol. Byddai cyllid grant yn fater mwy ansicr. Byddai barnau ynglŷn â chynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ymhen pythefnos yn cael eu mynegi ar yr adeg briodol, nes ymlaen yn yr agenda. [Gweler cofnod 12 – Coronafeirws Covid-19 ailadrodd.]

4. Adroddiad y Prif Weithredwr, Mawrth 2020

Soniodd Kathryn Robson am gasgliadau cadarnhaol o adroddiad arolygu Estyn am bartneriaeth Gwynedd a Môn, bod disgwyl yr adroddiad ar ymarferiad cywerth ym mhartneriaeth Merthyr Tudful, ac am adolygiad thematig parhaus o addysg gwaith ieuencid. Roedd wedi dod yn amlwg gyda'r arolygiadau olynol hyn bod cymysgeddau o gryfderau a gwendidau o fewn partneriaethau a darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, a bod ein dylanwad ar raddfa genedlaethol yn bwysig yn aml o ran cynnal safonau. O ystyried bod ein darpariaeth ein hunain wedi'i hasesu cwpwl o weithiau'n barod, roedd wedi'i hepgor trwy gytundeb blaenorol ym Merthyr Tudful, ac yn yr un modd byddai'n cael ei gadael allan o arolygiadau o bartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn y dyfodol.

O ran data dysgwyr, cytunwyd y byddai rhaniad y ffigurau hyd yma yn y flwyddyn academaidd hon, wedi'u rhannu yn ôl 'galwedigaethol' a 'generig' (nid yr un peth â rhaniad achrededig/anachrededig) yn cyd-fynd â chofnodion y cyfarfod. Roedd y pwynt hwnnw'n adleisio trafodaeth Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ychydig wythnosau'n gynharach ar leihau ein sylfaen cwricwlwm, gan fod lleihad yng nghynigion y celfyddydau breiniol yn adlewyrchu blaenoriaethau cyllido Llywodraeth Cymru. Ailadroddwyd effaith negyddol hyn o ran llai o gyrsiau yng ngogledd orllewin Cymru ac ardaloedd gwledig, er enghraifft, a phwysleiswyd y perygl o 'ddilyn yr arian' yn rhy eiddgar. Er mwyn cydbwysu hyn yn rhannol y cyflogwyd y Rheolwr Datblygu Busnes: nodwyd y ddogfen Traciwr Prosiect gysylltiedig yn cofnodi dulliau cyllido newydd - y tro cyntaf iddi fod gerbron y Cyngor.

Gallai'r addysg a ddarperir gan ganghennau helpu yn hynny o beth hefyd, ond trafodwyd y paragraff yn yr Adroddiad yn egluro pam nad oedd hynny'n flaenoriaeth i'w hehangu ar hyn o bryd (casgliad a gefnogwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth). Siaradodd ystod o aelodau o blaid yr hyn yr oedd canghennau presennol yn ei wneud ar hyn o bryd, am y mathau gwahanol o gymwysterau yr oedd rhai o'u cyrsiau yn arwain atynt, a bod hyn wedi'i wneud i raddau helaeth er gwaethaf diffyg cymorth gan y Sefydliad yn ganolog. Er y deallwyd y rheswm dros y penderfyniad i beidio â darparu adnoddau i greu canghennau newydd, yng ngogledd Cymru yn benodol, gobeithiwyd pe bai grŵp o bobl yn y sefyllfa eu bod yn dymuno sefydlu'u hunain fel y cyfryw, yna ni fyddai'r Sefydliad canolog yn rhwystro menter o'r fath. Soniodd Buddug Wiliam am anawsterau ymarferol a diffyg profiad/canllawiau ymhlith staff yn rhanbarth gogledd Cymru o ran sut i fynd ati i greu a chefnogi cangen. **Cytunwyd i sefydlu gweithgordd gorchwyl a gorffen ar fater dyfodol canghennau, gyda Cathy Clark, Daryl Leeworthy a Tim Palazon yn cytuno i fod yn aelodau ohono, i adrodd i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf ar sut gellid llunio materion ar hyn.**

5. Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 5 Mawrth 2020

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor fod cyfarfod yr wythnos flaenorol wedi derbyn cyfrifon rheoli am 6 mis cyntaf y flwyddyn ariannol a bod y sefyllfa'n parhau i fod yn sefydlog heb unrhyw beth anffafriol i'w adrodd. Roedd gwarged rhagolygol am y flwyddyn, a sefyllfa gadarn o hyd o ran cronfeydd arian wrth gefn, sef rhyw £3.5 miliwn. Roedd dau fater yn gysylltiedig â phersonél yn cyfiawnhau adrodd amdanynt: y goblygiadau posibl o ran y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) [TUPE] o gymryd camau pellach ar gysoni cyflogaeth pump o gyn diwtoriaid Coleg y Cymoedd; a'r ailstrwythuro arfaethedig mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg a Dwyieithog y Sefydliad a Marchnata Digidol. Gallai fod goblygiadau ar gyfer gwariant untro ynghlwm wrth y ddau fater yma er mwyn gwneud arbedion tymor hwy. Roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo cymryd camau cyfreithiol cychwynnol ar gyfer y cyntaf, tra'n cytuno y dylai cynigion manylach ar yr olaf ddod gerbron cyfarfod y Cyngor ym mis Mai.

Wedyn, trafodwyd y papur ychwanegol, **Defnyddio cronfeydd wrth gefn y Sefydliad / Utilisation of the Organisation's reserves**, gydag argymhellion cysylltiedig gan gyfarfod y Pwyllgor. Adroddwyd bod y Pwyllgor Adnoddau wedi cymeradwyo gwario £30,000 o'i gronfa arian gwneud penderfyniadau dirprwyedig o'r gwarged rhagamcanol ar gyfer 2019-20 ar: ymchwil ar effaith economaidd/gymdeithasol addysg oedolion (£20,000); ac ar greu, neu ehangu, cronfa ysgoloriaeth a oedd yn cyfeirio at Goleg Harlech (£10,000). O ran argymhellion o flaen y Cyngor ar ddefnyddio cronfeydd arian parod, roedd y cyntaf ar gyfer £500,000 ar dalu rhan o ddiffyg Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y Sefydliad, er roedd rhai o'r manylion ar gyfer hynny yn dal yn ansicr o ran y raddfa amser, ond byddai'n arwain at gyfradd enillion well o lawer ar fuddsoddiad nag a geir ar hyn y bryd gan ddaliadau cyfrif banc. Roedd hynny wedi derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio hefyd yn gynharach yn yr wythnos. Yr ail oedd taliad o £45,000 tuag at gyflogi unigolyn i ddechrau sefydlu llyfrgell Tudor Bowen Jones, a chadarnhawyd y byddai gan yr un unigolyn gyfrifoldeb dros gymhathu archif Gogledd Cymru WEA oedd yn cael ei chadw ym Mhrifysgol Bangor ar hyn o bryd. **Fe wnaeth aelodau'r Cyngor roi cymeradwyaeth unfrydol i'r ddau ddefnydd hwn o gronfeydd arian parod a gedwir gan y Sefydliad.**

6. Cofnodion y Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 27 Ionawr 2020 a materion yn codi

Cafodd cofnodion trafodion Busnes Agored cyfarfod blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghaerdydd eu cymeradwyo fel cofnodion cywir. Cafodd pedwar mater yn y cofnodion/rhestr pwyntiau gweithredu eu trafod ymhellach. Ar y rhaglen Atal [Prevent] (cofnod 3), roedd deg o aelodau'r Cyngor wedi cwblhau'r modiwl hyfforddiant a'r ymarferiad asesu ar-lein erbyn hyn. Cadarnhawyd y cysylltwyd â'r Sefydliad Addysg a Hyfforddiant a Colegau Cymru gyda'r adborth perthnasol o drafodaeth Prevent y cyfarfod hwnnw. Adroddwyd o dan gofnod 4 fod y Pwyllgor Chwilio wedi awdurdodi cymhwyso'r setliad cyflog i'r ddau Uwch Ddeiliad Swydd yn y Sefydliad (Prif Weithredwr a'r Clerc/Ysgrifennydd y Cwmni). Ac ar gofnod 5, trosglwyddwyd y gymeradwyaeth i gynigion cyllido diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21 ac roedd y dyraniadau cyllid ar gyfer y flwyddyn eisoes wedi'u cadarnhau ar y sail honno. Yn y cyfamser, nid oedd yr arolwg amrywiaeth ar gyfer aelodau'r Cyngor wedi'i gyhoeddi eto, gan roedd yn bwynt gweithredu nad oedd rhaid ei gwblhau tan fis Mai.

7. Adolygiad o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'i weithrediad

Ystyriwyd bod cyfnod gweithgarwch tua 16 mis yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) yn llwyddiant, a phwysleisiwyd y gwahoddiad agored i holl aelodau'r Cyngor i'w fynychu/arsylwi. **Gyda newidiadau i'w Gylch Gorchwyl i adlewyrchu'r penderfyniad diweddar i'w gynnal yn llai mynych, ac i ychwanegu'r ymadrodd 'nid yw'n lleihau awdurdod y Cyngor mewn unrhyw ffordd' yn hynny, roedd y Cyngor yn fodlon cymeradwyo bod yr UDA yn parhau i weithredu.**

8. Cynnig i enwebu Llywydd Anrhydeddus – Nia Parry

Roedd Nia Parry wedi mynegi ei hapusrwydd o gael ei hystyried ar gyfer y rôl hon. Pan ofynnwyd a oedd hi'n gweddu'n gywir i'r Sefydliad o ystyried mai fel hyrwyddwr Cymraeg i Oedolion yr oedd yn cael ei hadnabod yn bennaf, pwysleisiodd Kathryn Robson mai'r bwriad oedd defnyddio'i phroffil uchel yn y maes hwnnw ar gyfer ein cylch gwaith addysgol ehangach i oedolion. **Cymeradwyodd y Cyngor enwebiad Nia Parry, i fynd gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol i'w gytuno.** Y bwriad oedd iddi fod ar gael ar gyfer cynhadledd mis Mehefin ac ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol.

9. Y Gofrestr Risg ar gyfer mis Mawrth 2020

Roedd y ddogfen hon wedi'i chraffu arni gan y Pwyllgor Archwilio yn gynharach yn yr wythnos. Teimlwyd nad oedd unrhyw beth o bryder i'w ddwyn i sylw'r Cyngor, o ystyried bod y newidiadau a awgrymwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr wedi'u cymhathu yn y fersiwn hon - bodlonwyd un risg ar Safonau'r Gymraeg ac fe'i diddymwyd yn sgil hynny; ychwanegwyd un risg newydd, ar waddol Tudor Bowen Jones; a risg bellach ar ddarpariaeth addysgol yn Gymraeg yn dangos cynnydd yn ei chyfradd net. Golygai datblygiadau dros y bythefnos ers llunio'r Gofrestr fod **y Cyngor yn cytuno y dylid ychwanegu coronafeirws fel risg newydd ar lefel uchel.**

10. Adroddiad cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 27 Chwefror 2020

Soniodd Cadeirydd y Pwyllgor am dri phwynt yr ymdriniwyd â nhw yn y cyfarfod. Trafodwyd Adroddiad Hunan-asesu (AHA/SAR) 2018-19 yn faith, gyda llawer o awgrymiadau ar ddrafftio newidiadau a gwelliannau a wnaed gan y Pwyllgor. Hwn oedd yr adroddiad AHA cyntaf o dan fframwaith arolygu newydd Estyn, yn cynnwys 5 maes arolygu. Hefyd, cymeradwyodd y Pwyllgor fersiynau swyddogol, terfynol o Ddarpariaeth Ddysgu Gyffredinol a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol y Sefydliad, yn ofynnol fel rhan o'r ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Byddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi, a byddai fersiynau hawdd eu darllen ohonynt yn cael eu creu hefyd. Yn olaf, o ran y ddyletswydd *Atal [Prevent]*, cydnabuwyd bod cymhwyso'i disgwyliadau i'n Canghennau yn gofyn llawer ond ei bod yn angenrheidiol; a deallwyd bod angen i naws ein hadnoddau ni'n hunain oedd yn cael eu paratoi fod yn eithaf gwahanol i sylfaen 'gwerthoedd Prydeinig' deunydd gwreiddiol y Swyddfa Gartref er mwyn iddynt fod yn dderbyniol i'n tiwtoriaid ni, ac iddyn nhw gynnal ein perthynas draddodiadol dda rhwng y tiwtor a'r dysgwr.

11. Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 9 Mawrth 2020

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio y bu hwn yn gyfarfod calonogol at ei gilydd, gyda'r holl faterion a gyflwynwyd o dan reolaeth i raddau helaeth. Dim ond dau o argymhellion archwilwyr mewnol y flwyddyn flaenorol oedd i'w cyflawni eto. Dangosodd arolwg cyffredinol blynyddol yr archwilwyr mewnol o faterion a oedd yn achosi pryder eu bod yn gyson â chyrrff addysgol tebyg a sectorau eraill, ac o ran defnyddio cronfeydd wrth gefn, cafwyd cefnogaeth gan y Pwyllgor i'r opsiwn talu'r diffyg ar bensiynau (cofnod 5 uchod).

12. Paratodau'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

[Nodwch fod y paragraff hwn wedi'i ddisodli mewn rhai agweddau gan y trydydd paragraff yn y cofnod hwn, yn ystyried effaith coronafeirws ar gynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol]. Cytunwyd ar y rhaglen ar gyfer y dydd, yn amodol ar fewnosod y gymeradwyaeth i enwebu Nia Parry yn Llywydd Anrhydeddus y Sefydliad (cofnod 8 uchod) fel penderfyniad. Gan droi at y penderfyniadau a gyflwynwyd yn flaenorol i'w trafod, roedd yr un ar Rhagnodi Cymdeithasol yn cadarnhau yr hyn oedd eisoes yn cael ei wneud gan y sefydliad: roedd y Cyngor yn ei gefnogi a byddai Kathryn Robson yn siarad amdano. Roedd yr ail benderfyniad ar fynediad i doiledau i bobl anabl ac ar ddyslecsia wedi deillio o ddau fforwm i ddysgwyr a oedd wedi teimlo wedi'u grymuso fod Fforwm Rhanbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru yn rhoi modd iddynt fynegi'u barn. Cytunwyd na ddylai'r Cyngor roi unrhyw safbwynt ar hynny. Bu llawer o drafod ynghylch penderfyniad 3 ar y thema addysg gydweithredol a phrifysgol, gyda gwahaniaethau barn ar ba mor gefnogol y gallai ac y dylai'r Cyngor fod. Daethpwyd i'r casgliad y byddai Gareth Cork yn darllen datganiad wedi'i baratoi ymlaen llaw arno i'r Cyngor ac y byddai'r Clerc yn siarad â'r cynigydd ynglŷn â'i oblygiadau, gan ofyn iddo egluro rhai agweddau arno yn y cyfnod yn arwain at y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Cefnogwyd penderfyniad 4 ar newid i ffin Fforymau Rhanbarthol gan y Cyngor. O ran y

Penderfyniad Brys ar sefyllfa Rheolwr Rhanbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru, cafwyd trafodaeth ynglŷn â ph'un a oedd hyn yn fater yr oedd cyfiawnhad iddo i fynd gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, am ei fod yn ymwneud â materion staffio a swydd benodol. **Penderfynodd y Cyngor na ddylai gael ei gynnwys ar agenda'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac y dylai'r cynigydd a'r eilydd dderbyn ymateb ysgrifenedig yn lle hynny, wedi'i lunio gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'i drosglwyddo gan y Clerc.**

O ran papurau'r diwygiadau cyfansoddiadol (Erthyglau Cymdeithasu a Rheolau Sefydlog), fe wnaeth yr un drafodaeth ganolbwyntio ar Reol Sefydlog cymal 22 a'r derminoleg ar gyfer ceisio sicrhau, yn y dyfodol, bod tiwtor yn cymryd un o'r ddwy sedd ar gael i aelodau staff ar y Cyngor. Cafwyd trafodaeth ar b'un a oedd angen aileirio i'w wneud yn decach i diwtoriaid, ac ar ffyrdd o sefydlu tiwtoriaid i arsylwi/cyfranogi mewn cyfarfodydd o'r Cyngor heb fod yn llywodraethwyr o angenrheidrwydd. Mewn pleidlais, roedd 7 o Blaid a 5 yn Ymatal o ran dileu ail frawddeg y cymal arfaethedig wedi'i ailddrafftio. Ym marn y Cadeirydd, roedd angen cefnogaeth unfrydol i wneud newid o'r fath, felly cadwyd y cymal fel yr oedd wedi'i eirio'n flaenorol. O ganluniad, **cymeradwyodd y Cyngor y penderfyniadau (heb fod yn rhai Brys) eraill i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eu hystyried; a'r ddwy ddogfen gyfansoddiadol yn eu ffurf fel y'u cyflwynwyd i fynd gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w cytuno.**

[Coronafeirws Covid-19 ailadrodd: ni wnaed datganiad cyhoeddus pellach o'r cyfarfod COBRA hyd yma. **Penderfynodd y Cyngor beidio â chynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fel cynulliad corfforol wedi'i raglennu ar gyfer 26 Mawrth yng Nghanolfan Soar ym Merthyr Tudful, ac yn lle hynny defnyddio fformat rhithwir o bleidleisio/ymgynnull er mwyn ymdrin â'r rhannau hynny o'r agenda yr oedd yn angenrheidiol delio â nhw yn gyfansoddiadol/gyfreithiol. Dirprwywyd yr awdurdod i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i benderfynu'n union ar ba ffurf ar-lein/fideo/ar y we y dylai hynny fod, a gyda mewnbwn gan y Clerc, beth oedd y cynhwysion hanfodol iddo, yn hytrach na'r cynhwysion dymunol.** Gallai fod cyngor gan y Comisiwn Elusennau/Tŷ'r Cwmnïau a allai gynorthwyo gyda hynny, gan y byddai nifer o sefydliadau eraill mewn sefyllfa debyg.]

13. Dyddiadau cyfarfodydd y cyngor a chyfarfodydd cysylltiedig eraill ar gyfer 2020 (yn y dyddiaduron nawr, ond i'w hail-ystyried a'u hail-gadarnhau ar ddyddiad yn y dyfodol):

- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Dydd Iau 26 Mawrth: ni chynhelir yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful mwyach, ond ar ryw ffurf rithwir
- Dydd Mercher 20 Mai: Caerdydd / Bangor
- Digwyddiad Gwobrau a Chynhadledd – Dydd Iau 25 Mehefin: Sefydliad y Glowyr Llanhilydd neu ar ffurf rithwir
- Dydd Iau 23 Gorffennaf: Bangor / Caerdydd

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Gweithred y cytunwyd arni	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 4	Adroddiad y Prif Weithredwr, Mawrth 2020	Cytunwyd i sefydlu gweithgor gorchwyl a gorffen ar fater dyfodol canghennau, gyda Cathy Clark, Daryl Leeworthy a Tim Palazon yn cytuno i fod yn aelodau ohono, i adrodd i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf ar sut gellid llywio materion.	KR / CH	Gorffennaf 2020

Cofnod 5	Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 5 Mawrth 2020	Fe wnaeth aelodau'r Cyngor roi cymeradwyaeth unfrydol i ddau ddefnydd o'r cronfeydd arian parod a gedwir gan y Sefydliad: £500,000 tuag at dalu'r diffyg yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol; a £45,000 tuag at gyflogi unigolyn i ddechrau sefydlu llyfrgell Tudor Bowen Jones.	KR / MB	Mai 2020
Cofnod 7	Adolygiad o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'i weithrediad	Gyda newidiadau i'w Gylch Gorchwyl i adlewyrchu'r penderfyniad diweddar i'w gynnal yn llai mynych, ac i ychwanegu'r ymadrodd 'nid yw'n lleihau awdurdod y Cyngor mewn unrhyw ffordd' yn hynny, roedd y Cyngor yn fodlon cymeradwyo bod yr UDA yn parhau i weithredu.	KR / ST	Mai 2020
Cofnod 8	Cynnig i enwebu Llywydd Anrhydeddus – Nia Parry	Cymeradwyodd y Cyngor enwebiad Nia Parry, i fynd gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gytuno.	KR / ST	Mawrth 2020
Cofnod 9	Y Gofrestr Risg ar gyfer mis Mawrth 2020	Cytunodd y Cyngor y dylid ychwanegu coronafeirws fel risg newydd ar lefel uchel.	KR / MB	Mawrth 2020
Cofnod 12	Paratoadau'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol	Daeth y Cyngor i'r casgliad na ddylid cynnwys y Penderfyniad Brys ar agenda'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ac y dylai'r cynigydd a'r eilydd dderbyn ymateb ysgrifenedig yn lle hynny, wedi'i lunio gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'i drosglwyddo gan y Clerc.	KR / ST	Mawrth 2020
		Cymeradwyodd y Cyngor y cynigion eraill i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eu hystyried, a'r ddwy ddogfen gyfansoddiadol yn y ffurf eu cyflwynwyd, i fynd gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w cytuno.	ST / Jonathan Goddard	Mawrth 2020
		Penderfynodd y Cyngor beidio â chynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fel cynulliad corfforol wedi'i raglennu ar gyfer 26 Mawrth yng Nghanolfan Soar ym Merthyr Tudful, ac yn lle hynny defnyddio fformat rhithwir o bleidleisio/ymgynnull er mwyn ymdrin â'r rhannau hynny o'r agenda yr oedd yn angenrheidiol delio â nhw yn gyfansoddiadol/gyfreithiol. Dirprwywyd yr awdurdod i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i benderfynu'n union ar ba ffurf ar-lein/fideo/ar y we y dylai hynny fod, a gyda mewnbwn gan y Clerc, beth oedd y cynhwysion hanfodol iddo, yn hytrach na'r cynhwysion dymunol.	UDA / ST / Jonathan Goddard	Mawrth 2020